OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 1809 (Cy. 183)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyffordd Station Road i Gilwern, Sir Fynwy) (Gwahardd Troi i'r Dde Dros Dro) 2013

Gwnaed	*18 Gorffennaf 2013*
Yn dod i rym	*28 Gorffennaf 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Casnewydd - Amwythig (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Gorffennaf 2013. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyffordd Station Road i Gilwern, Sir Fynwy) (Gwahardd Troi i'r Dde Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20.00 o'r gloch ar 28 Gorffennaf 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd, yn Sir Fynwy, a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwahardd

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r dde ar draws y gerbytffordd gyferbyn er mwyn ymadael â'r gefnffordd yn y lleoliadau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Gorffennaf 2013

S Hague

SHEENA HAGUE
Dirprwy Gyfarwyddwr
Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

GWAHARDD TROI I'R DDE

(i) Ymadael â cherbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd ar draws y gerbytffordd tua'r dwyrain i Ffordd Sirol yr R205 (a elwir Main Road), i'r gorllewin o Gilwern.

(ii) Ymadael â cherbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd ar draws y gerbytffordd tua'r dwyrain i mewn i faes parcio Tŷ Tafarn 'The Lion', i'r gorllewin o Gilwern.

(iii) Ymadael â cherbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd ar draws y gerbytffordd tua'r gorllewin i Ffordd Sirol yr R207 (gorllewin Station Road), i'r gorllewin o Gilwern.

(iv) Ymadael â cherbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd ar draws y gerbytffordd tua'r gorllewin i Ffordd Sirol yr R206 (Old Trap Road), i'r gorllewin o Gilwern.

(v) Ymadael â cherbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd ar draws y gerbytffordd tua'r gorllewin i Ffordd Sirol yr R206 (dwyrain Station Road), i'r gorllewin o Gilwern.